

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Polisi Addas i Astudio

Cwmpas a Diben y Polisi

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwff. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n rhan o Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Caiff dysgwyr eu cefnogi i'w **galluogi** nhw i gyflawni eu **potensial** tra maent yn dysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau maent eu hangen i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Mae'r Polisi'n nodi cyfrifoldebau Coleg Caerdydd a'r Fro mewn perthynas â llesiant dysgwyr sy'n arddangos symptomau amlwg o salwch, heriau iechyd meddwl, anhwylderau seicolegol, personoliaeth neu emosiynol a all gael effaith annymunol ar y ffordd mae dysgwr unigol yn byw, neu ar lesiant eraill o'i gwmpas.

Bwriad y Polisi yw hyrwyddo agweddau positif tuag at ddysgwyr, yn ogystal â dangos ymrwymiad y Coleg i gynnal llesiant dysgwyr, a'r gweithdrefnau a chymorth sydd ar gael i ddysgwyr a staff pan fo dysgwr yn wael a/neu yn risg i'w hunan a/neu eraill. Mae gan y Coleg ddyletswydd gofal i ymateb yn briodol i sefyllfaoedd lle mae nifer o bryderon ynghylch gweithredoedd meddyliol a/neu gorfforol dysgwr, a'r effaith ar yr unigolyn a/neu aelodau eraill o gymuned y Coleg.

Datganiadau'r Polisi

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r:

- Holl ddysgwyr o fewn y Coleg, waeth beth fo'u dull neu leoliad astudio.
- Holl aelodau staff o fewn y Coleg.
- Holl bartneriaid a sefydliadau breiniol.

Mae nifer o egwyddorion allweddol wrth wraidd y Polisi hwn:

- Ymrwymiad i fodel cymdeithasol anabledd lle'r ydym yn edrych ar gael gwared ar y rhwystrau y gallai rhywun eu hwynebu oherwydd ei anabledd neu anhawster dysgu er mwyn hyrwyddo cynhwysiant.

- Hyrwyddo amgylchedd positif, cefnogol a diogel lle gall dysgwyr deimlo'n werthfawr, cael eu parchu a'u deall fel unigolion, a'u dymuniadau gael eu hystyried. Fel rhan o hyn, mae gennym ddull diduedd, cyson a sensitif at reoli sefyllfaoedd sy'n gofyn am lefel briodol o ymyrraeth.
- Ymrwymiad i ddulliau adferol i sicrhau ein bod ni'n mabwysiadu cysylltiadau da drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.
- Cysylltu ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi dysgwyr i ddefnyddio dull partneriaeth at ddiogelu a llesiant.

Bwriad y Polisi hwn yw sicrhau dull cyson a sensitif at reoli sefyllfaoedd a all achosi problemau ac mae'r Coleg wedi ymrwymo i:

- Gefnogi dysgwyr gydag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol mewn ffyrdd sy'n bodloni eu hanghenion unigol yn addas ac effeithiol, gan adnabod a gweithredu newidiadau rhesymol lle bo'n briodol.
- Gosod gweithdrefnau i ddarparu dull cydlynol at reoli sefyllfaoedd lle mae'n amlwg bod modd i weithred feddylol a/neu gorfforol y dysgwr ei atal ef/hi rhag elwa o'r ddarpariaeth addysgiadol a chymdeithasol ar adeg benodol, neu mae'n effeithio'n niweidiol ar brofiad dysgwyr eraill, neu wedi mynd y tu hwnt i gymorth bugeiliol y gellir ei gynnig o fewn y Coleg. Ar gyfer dysgwyr AU sy'n ymgymryd â darpariaeth fasnachfaint, byddwn yn cyfeirio at y gweithdrefnau prifysgol perthnasol.
- Adnabod yr ymateb priodol gan staff academiaidd a gwasanaeth cefnogi lle nad yw'n cael ei ystyried yn addas i ddefnyddio gweithdrefnau disgyblu oherwydd y dylid rheoli ymddygiad y dysgwr, yn hytrach na'i ddisgyblu.
- Cyfeirio staff at feysydd cefnogi a'u galluogi i adnabod cyfyngiadau'r gefnogaeth y gallant ei darparu ac addasrwydd cyfeirio'r dysgwr at asiantaethau eraill.
- Sicrhau cefnogaeth briodol i ddysgwyr sydd wedi eu heffeithio gan gysylltiadau â dysgwyr eraill yn yr amgylchiadau uchod, neu sydd ynghlwm â'r sefyllfa eu hunain.
- Ystyried gwahardd dysgwr dros dro neu'n barhaol, yn gyfreithiol, a chyfiawnhau'r rheswm dros weithred o'r fath.
- Gosod gweithdrefnau i sicrhau ein bod ni'n cofnodi manylion dysgwyr sy'n cael eu cefnogi o dan y polisi hwn yn briodol.
- Hysbysu cymuned y Coleg o'r polisi hwn a'n gweithdrefnau; er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o bwysigrwydd cefnogi dysgwyr yn y modd hwn, a beth sydd angen ei wneud petai sefyllfa o'r fath yn codi.

Rhif Adolygiad:	6
Dyddiad Adolygu	13/09/22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	13/09/24

- Hyrwyddo dealltwriaeth o anabledd ar draws cymuned y Coleg. Gwneir hyn drwy hyfforddi staff, proses gyflwyno a thiwtorial i ddysgwyr, a defnyddio cyhoeddusrwydd a phosteri ar draws y coleg.
- Cofnodi a monitro achosion yr ymdrinnir â nhw o dan y polisi, i sicrhau bod y weithdrefn briodol yn cael ei dilyn, ac ein bod ni wedi ymateb yn effeithiol i unrhyw bryderon neu dueddiadau.
- Adolygu effeithiolrwydd ein polisi yn rheolaidd, yn ogystal â'n hymateb i'r ymddygiadau a amlinellir yn y polisi hwn.

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) a rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Mae'r Prif Fwrdd yn cymeradwyo'r polisi hwn.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Monitro'r broses o gymhwyso'r gweithdrefnau, cefnogi staff i lynu wrth y polisi ac ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd sy'n achos pryder.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion perthnasol y coleg e.e. derbyniadau, tiwtorial ayyb. wedi'u hymgorffori yn y gweithdrefnau hyn.
- Sicrhau nad yw darpariaeth y cwricwlwm yn mynd yn groes i ofynion na nod y polisi hwn.

Mae'r Pennaeth Ansawdd, Addysgu a Dysgu Cynorthwyol yn gyfrifol am:

- Ddarparu hyfforddiant a datblygiad priodol.

Mae'r holl staff yn gyfrifol am:

- Drin yr holl ddysgwyr gydag urddas a pharch, i sicrhau nad yw eu hymddygiad eu hunain yn achosi camddealltwriaeth na drwgdeimlad.
- Bod yn ymwybodol o'r polisi, y gweithdrefnau a gweithio y tu mewn iddynt mewn modd cefnogol.
- Gweithio o fewn gofynion y Polisi Diogelu Data.
- Cadw at y polisi o ran dymuniad dysgwr am gyfrinachedd.
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda staff i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu bodloni.
- Mynychu digwyddiadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) ar agweddau megis cydraddoldeb ac amrywiaeth, dulliau adferol ac ymwybyddiaeth o anabledd.

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

Rhif Adolygiad:	6
Dyddiad Adolygu	13/09/22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	13/09/24

- Fynychu sesiwn sefydlu a thiwtorialau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ynddo.
- Rhoi adborth i staff ar agweddau ar y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Ymddwyn mewn modd sy'n cefnogi'r Polisi ar draws y Coleg.

Materion Diogelu Data

Mae holl staff y Coleg yn cael eu llywodraethu gan ofynion Deddfau Diogelu Data 2018. O dan y ddeddf hon, ystyrir yr holl ddata sy'n ymwneud ag iechyd meddyliol neu gorfforol unigolyn yn ddata sensitif a phersonol. Mae Polisi'r Coleg ar Ddiogelu Data yn cynnwys canllawiau ar y defnydd o wybodaeth sensitif e.e. manylion am iechyd meddwl neu gyflwr dysgwr, ac ni ddylid ei thrafod â staff. Yn gyffredinol, dylid trin data personol sydd o natur personol sy'n cael ei roi i aelod o staff gan ddysgwr yn gyfrinachol a dylid ei drafod wedi derbyn caniatâd y dysgwr yn unig. At ddiben y Polisi hwn, ystyrir data sensitif fel gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol sy'n ymwneud ag iechyd gwael neu anabledd yn cynnwys salwch iechyd meddwl.

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu Saesneg. Mae'r cyfrifoldeb sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn unol â hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg ac o ganlyniad yn ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Efallai y ceir amgylchiadau lle mae gwrthdaro yn codi rhwng materion Addas i Weithio, ac iechyd a diogelwch gweithwyr a dysgwyr. Delir â'ch cais ar sail unigol.

Polisiau Cysylltiedig

- Diogelu
- Diogelu Data
- Bwlio ac Aflonyddu
- Camddefnyddio Sylweddau
- Rheoli Cysylltiadau Dysgwyr
- Datgelu
- Iechyd a Diogelwch

Rhif Adolygiad:	6
Dyddiad Adolygu	13/09/22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	13/09/24

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Ansawdd
- Addysgu, Dysgu ac Asesu
- Polisi Cwynion gan Ddysgwyr

Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Diogelu
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Gweithdrefnau Camddefnyddio Sylweddau
- Gweithdrefnau a Chanllawiau Rheoli Cysylltiadau Dysgwr
- Datgelu
- Cwynion gan Ddysgwyr
- Iechyd a Diogelwch
- Diogelu Data

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

Lleoliad a Mynediad at y Polisi

Mae'r polisi hwn ar gael ar wefan y coleg. Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Dyddiad cymeradwyo: 19/04/2013

Cymeradwywyd gan: Y Prif Fwrdd

Dyddiad adolygu: 13/09/2024

Rheolwr sy'n Gyfrifol: Prif Gynorthwydd Taith y Dysgwr

Arweinydd Gweithredol: Dirprwy Bennaeth

Ar gael i Ddysgwyr: Ydy

Rhif Adolygiad:	6
Dyddiad Adolygu	13/09/22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	13/09/24